OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 202-

*Gwnaed* ***** 2025*

*Yn dod i rym* ***** 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A5, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 202- a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar **** 2025.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" yw cefnffordd yr A5 Llundain i Gaergybi.

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi; diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A5 Trunk Road (Llyn Ogwen, Conwy County Borough) (Prohibition of Waiting) Order 202-

*Made* ***** 2025*

*Coming into force* ***** 2025*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A5 trunk road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1), 2(2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have consulted with the Chief Officer of North Wales Police and given notice of their intention to make this Order in accordance with regulations 5(1) and 6(1) of the Secretary of State's Traffic Orders (Procedure) (England and Wales) Regulations 1990(**2**).

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A5 Trunk Road (Llyn Ogwen, Conwy County Borough) (Prohibition of Waiting) Order 202- and this Order comes into force on **** 2025.

### Interpretation

**2.** In this Order—

"the trunk road" means the A5 London to Holyhead trunk road.

(**1**) 1984 c. 27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c. 22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 17 and 18, section 1(1) was amended by paragraph 36(1) of Schedule 22 to the Environment Act 1995 (c. 25). By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(**2**) S.I. 1990/1656.

**Gwahardd aros**

**3.** Ac eithrio fel y darperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar unrhyw ddiwrnod ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Esemptiadau**

**4.** Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(d) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ddarn arall o ffordd, i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud ymaith unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darnau o'r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebiadau electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(e) cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol;

(f) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darnau hynny o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddynt; neu

(g) cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol—

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

**Prohibition of waiting**

**3.** Except as provided in article 4, no person may cause or permit any vehicle to wait at any time on any day on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Exemptions**

**4.** A person may cause or permit any vehicle to wait on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order for so long as may be necessary to enable—

(a) a person to board or alight from a vehicle;

(b) goods to be loaded on or unloaded from the vehicle;

(c) the vehicle to be used for fire brigade, ambulance or police purposes; or

(d) the vehicle, if it cannot conveniently be used for such purpose in any other length of road, to be used in connection with any of the following operations:

(i) building, industrial or demolition operations;

(ii) the removal of any obstruction to traffic;

(iii) the maintenance, improvement or reconstruction of the trunk road; or

(iv) the laying, erection, alteration or repair in, or in land adjacent to, the lengths of the trunk road of any sewer or of any main, pipe or apparatus for the supply of gas, water or electricity or any electronic communications apparatus as defined in paragraph 5 of Schedule 3A to the Communications Act 2003(**1**);

(e) a vehicle to be used in the service of a local authority or a water authority in pursuance of statutory powers or duties;

(f) the vehicle to take petrol, oil, water or air from any garage situated on or adjacent to the said lengths of the trunk road; or

(g) a vehicle to stop when the person in control of it—

(i) is required by law to stop;

(ii) is obliged to stop in order to avoid an accident;

(iii) is prevented from proceeding by circumstances outside their control; or

(**1**) 2003 c. 21. Schedule 3A was inserted by paragraph 1 of Schedule 1 to the Digital Economy Act 2017 (c. 30).

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen gan amgylchiadau sydd y tu hwnt i'w reolaeth; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

### Dirymu

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A5 (Llyn Ogwen, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Gwahardd Aros) 2023(**1**) wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig **** 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

## YR ATODLEN

Y darn o ochr ogleddol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,897 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 66 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,315 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1,460 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth sy'n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 1,995 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â'r ffordd ddiddosbarth honno.

(**1**) O.S. 2023/337 (Cy. 48).

(iv) is acting upon the direction, or with the permission, of a police constable, police community support officer or civil enforcement officer.

### Revocation

**5.** The A5 Trunk Road (Llyn Ogwen, Conwy County Borough) (Prohibition of Waiting) Order 2023(**1**) is revoked.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated **** 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## SCHEDULE

The length of the northern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 2,897 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 66 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,315 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 1,460 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 1,995 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.

(**1**) S.I. 2023/337 (W. 48).

Y darn o ochr ddeheuol y gefnffordd sy’n ymestyn o bwynt 2,392 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth sy’n gyfagos i Fwthyn Ogwen hyd at bwynt 2,898 o fetrau i’r dwyrain o ganolbwynt ei chyffordd â’r ffordd ddiddosbarth honno.

The length of the southern side of the trunk road that extends from a point 2,392 metres east of the centre-point of its junction with the unclassified road adjacent to Ogwen Cottage to a point 2,898 metres east of the centre-point of its junction with that unclassified road.